**RHYBUDD o benderfyniadau cyfarfod Hybrid y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar 24 Medi 2024.**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm dydd Mercher 25 Medi, 2024. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Mercher 2 Hydref 2024. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Iau, 3 Hydref 2024.

**Yn bresennol**: Cynghorwyr Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams, Gary Pritchard (Cadeirydd), Alun Roberts, Neville Evans, Carwyn Jones a Dafydd Roberts

**Hefyd yn bresennol**: Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Derek Owen.

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd  Nicola Roberts

(10:00 y. b. - 11:40 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Hydref 2024 i Mai** |

| | |
|---|---|
| | **2025 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Monitro'r Cerdyn Sgorio - Chwarter 1, 2024/25**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer 2024/25 a nodi'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol. Mae'r rhain mewn perthynas â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen; canran o fusnesau risg uchel wedi cael eu harolygu yn unol â safonau hylendid bwyd a gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau y gellir adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol newydd o Ch2 ymlaen er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o berfformiad a thueddiadau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adroddiad Perfformiad Blynyddol** |

| | |
|---|---|
| | **2023/24**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid. |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cytuno i gynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 sy'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yng Nghynllun y Cyngor ac argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r adroddiad yn ei gyfarfod a gynhelir ar 26 Medi.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Adolygu gwaith y Cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn destun cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 1, 2024/25**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B a C yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25**<br>• **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2024/25, y manylir arnynt yn Atodiad CH**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2024/25 yn Atodiadau D a DD.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |

| | |
|---|---|
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1, 2024/25**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2024/25 yn ystod chwarter.**<br><br>• **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol, gwerth £11.369m, a gostyngiad o £1.345m yng nghyllideb y CRT i'r rhaglen gyfalaf, a newidiadau mewn cyllid yn unol ag Atodiad C yr adroddiad, a fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £69.361m ar gyfer 2024/25.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2024/25.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 1, 2024/25**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol –**<br><br>• **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter** |

| | |
|---|---|
| | **1 2024/25**<br>• **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2024/25.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2024/25.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 - 2026/27**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 - 2026/27 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ynddo.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cyhoeddi datganiad cyn cyllideb yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Newid y Cyfansoddiad – Polisi Pryderon a Chwynion a Rheolau Gweithdrefn Contractau**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell y canlynol i'r Cyngor Llawn –** |

| | |
|---|---|
| | <ul><li>**Bod y Polisi Pryderon a Chwynion a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cael eu tynnu o Gyfansoddiad y Cyngor a dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r penderfyniadau hyn.**</li><li>**Bod y Polisi Pryderon a Chwynion, a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau (ynghyd â'r holl ddogfennau ategol perthnasol) ar gael yn rhwydd ar wefan y Cyngor.**</li><li>**Ni fydd y Cyngor llawn bellach yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Polisi Pryderon a Chwynion a Rheolau Gweithdrefn Contractau, a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith; neu gan y Swyddog Monitro, o dan bwerau dirprwyedig, os nad yw'r newidiadau'n darparu dewis lleol, neu'n fân newidiadau. Bydd unrhyw newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau bob amser yn cael eu trafod â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.**</li></ul> |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gwneud argymhellion mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn destun cymeradwyaeth y Cyngor llawn.** |